Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

# Model Cyllido Prentisiaethau: Crynodeb o ganlyniad yr ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 14 Medi 2026 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2026/47 |
| **At:** | Benaethiaid darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru<br>Darparwyr prentisiaethau presennol yng Nghymru / Deiliaid contractau prentisiaethau wedi'u comisiynu<br>Cyrff cynrychioli cyflogwyr<br>Cyrff cynrychioli dysgwyr<br>Cynrychiolwyr addysg awdurdodau lleol |
| **Ymateb erbyn:** | Nid oes angen ymateb |
| **Rhagor o wybodaeth:** | prentisiaethau@medr.cymru |

**Crynodeb:**

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y model cyllido newydd ar gyfer y Rhaglen Brentisiaethau (sy'n arwain at gymwysterau rheoleiddiedig ar lefelau 2-5) o 1 Awst 2027 ymlaen, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2026.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

## Crynodeb

Nod Cynllun Strategol Medr yw ‘creu system addysg drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig lle gall pawb ddysgu’r sgiliau a’r wybodaeth y bydd eu hangen arnynt ar gyfer economi a chymdeithas sy’n newid’. Rydym wedi ymrwymo i ddylunio darpariaeth prentisiaethau ar gyfer y dyfodol mewn ffordd sy’n ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran sgiliau a bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a’r economi. Mae prentisiaethau’n ysgogiad sylweddol i gynyddu cynhyrchiant a helpu i dyfu gweithlu medrus ac amrywiol.

Bydd y rhaglen brentisiaethau newydd yn dechrau ar 1 Awst 2027 a bydd yn fwy ymatebol a hyblyg er mwyn ymateb i’r newidiadau yn ein heconomi.

Ym mis Mai 2026, cynhaliom ymgynghoriad ar ddull cyllido arfaethedig ar gyfer y rhaglen brentisiaethau newydd sy’n arwain at gymwysterau rheoleiddiedig ar lefelau 2-5, a oedd yn cynnwys ymgysylltu â darparwyr addysg drydyddol, cyrff diwydiant, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill.

Gofynnom am safbwyntiau ar y canlynol:

- Egwyddorion lefel uchel y model cyllido newydd
- Manteision y model cyllido newydd
- Canlyniadau anfwriadol rhoi’r model cyllido newydd ar waith
- Costau ychwanegol prentisiaethau

Bu clywed gan randdeiliaid yn allweddol i helpu Medr i lunio’r model cyllido newydd ac ystyried yn llawn y canlyniadau anfwriadol a nodwyd.

Mae’r ddogfen hon yn darparu crynodeb o themâu allweddol o’r ymatebion i gwestiynau’r ymgynghoriad a sut rydym wedi penderfynu ymateb wrth gadarnhau’r model cyllido newydd.

Mae **Atodiad A** yn darparu dadansoddiad manylach o adborth yr ymgynghoriad.

## Cyflwyniad

1. Mae Medr wedi ymrwymo i sicrhau bod y Rhaglen Brentisiaethau'n parhau i fodloni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran sgiliau ac anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r economi ehangach wrth iddynt esblygu, yn rhan o system addysg drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig.

2. Cynhaliom ymgynghoriad 6 wythnos ym mis Mai – Mehefin 2026, yn ceisio barn gan randdeiliaid, gan gynnwys darparwyr addysg drydyddol, cynrychiolwyr diwydiant, cyflogwyr, dysgwyr ac awdurdodau lleol i helpu i lywio'r model cyllido ar gyfer y rhaglen newydd. Roedd y ddogfen ymgynghori'n cynnig gwybodaeth am fodel cyllido cyfredol y rhaglen brentisiaethau, sail resymegol dros newid a chynigion ar gyfer model cyllido newydd y rhaglen brentisiaethau.

3. Roedd 15 cwestiwn wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori, yn ceisio barn ar y canlynol:

   - Egwyddorion lefel uchel y model cyllido newydd
   - Manteision y model cyllido newydd
   - Canlyniadau anfwriadol rhoi'r model cyllido newydd ar waith
   - Costau ychwanegol prentisiaethau

4. Cawsom 34 o ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad. Cynhaliom ddigwyddiad ar-lein hefyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, gyda 30 o bobl yn bresennol. Hoffem achub ar y cyfle i ddiolch i bawb a gyfrannodd.

5. Mae'r adborth o'r ymgynghoriad wedi llywio datblygiad y model cyllido newydd. Mae paragraff 25 yn amlinellu sut rydym wedi ymateb wrth gadarnhau'r model cyllido.

6. Mae crynodeb lefel uchel o'r themâu allweddol a nodwyd o'r ymgynghoriad wedi'i gynnwys o baragraff 8 y ddogfen ymlaen, gyda dadansoddiad manylach yn **Atodiad A**.

## Beth yw'r model cyllido prentisiaethau newydd arfaethedig?

7. Fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori, datblygodd Medr fodel cyllido newydd arfaethedig i gefnogi dull mwy hyblyg, sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'r model wedi'i seilio ar y dysgu sydd ei angen er mwyn i brentis unigol gyflawni ei fframwaith prentisiaeth yn llwyddiannus, yn hytrach na hyd a swm penodedig. Mae'r model yn galluogi mwy o hyblygrwydd i deilwra'r fframwaith i anghenion dysgwyr a chyflogwyr, wrth sicrhau bod darparwyr yn cael eu talu'n brydlon am yr elfennau mae'r dysgwr yn eu cwblhau.

## Themâu Allweddol

### Dull hyblyg

8. Croesawyd yr uchelgais i greu model cyllido prentisiaethau sy'n fwy hyblyg, yn canolbwyntio ar y dysgwr ac yn canolbwyntio ar ddeilliannau.

## Taliad cwblhau'n llwyddiannus

9. At ei gilydd, er bod ymatebwyr yn cefnogi egwyddor cyllido ar sail deilliannau, yn gyffredinol, codwyd nifer o ganlyniadau anfwriadol yn ymwneud â chyflwyno taliad cwblhau llwyddiannus o 20%, sef cynnydd o gymharu â'r 3% presennol. Mynegodd ymatebwyr bryderon fod 20% yn rhy uchel ac y gallai ddylanwadu'n anfwriadol ar wneud penderfyniadau am resymau ariannol yn hytrach nag anghenion dysgwyr. Roedd y prif bryderon yn cynnwys:

    a. Ansefydlogrwydd ariannol, llai o fynediad a thegwch, newidiadau i ymddygiad darparwyr, ac effeithiau posibl ar sectorau sydd â blaenoriaeth.

    b. Gallai darparwr ddod yn fwy detholus wrth recriwtio, gan ffafrio dysgwyr â risg is a lleihau cyfleoedd i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), dysgwyr Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill a'r rhai o gefndiroedd difreintiedig. Yn y pen draw, gallai hyn gyfyngu ar fynediad, lleihau cynhwysiant a chynyddu nifer y dysgwyr sy'n tynnu'n ôl.

    c. Efallai na fydd rhai fframweithiau prentisiaeth yn yr economi sylfaenol yn cael eu darparu, oherwydd cyfraddau deilliannau llwyddiannus is yn hanesyddol.

    d. Efallai na fydd costau darparu yn cael eu talu'n llawn os na fydd dysgwyr yn cwblhau'r brentisiaeth yn llwyddiannus, a fyddai'n golygu y byddai darparwyr yn ysgwyddo'r risgiau ariannol cysylltiedig. Roedd hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer isgontractwyr. Mae ffactorau allanol a allai atal dysgwyr rhag cwblhau eu prentisiaeth sydd y tu hwnt i reolaeth darparwyr, fel sefydlogrwydd cyflogwyr, amodau'r farchnad lafur ac amgylchiadau dysgwyr unigol, fel iechyd neu heriau personol.

    e. Nid oedd y cynigion yn gyson â'r dull trydyddol ehangach, lle nad oes unrhyw daliadau deilliannau/cwblhau llwyddiannus neu lle mae'r taliadau hynny'n gyfyngedig.

10. Y prif awgrym gan yr ymatebwyr oedd gweithredu taliad cwblhau llwyddiannus ar ganran cyllido is, sef rhwng 5% a 10% fel arfer, gyda rhai ohonynt yn nodi y dylai 10% i 15% fod yr uchafswm. Argymhellodd ymatebwyr eraill gyflwyno unrhyw gynnydd yn raddol, gan gynnwys treialu'r dull cyn ei roi ar waith yn llawn.

11. Nododd llawer ohonynt bwysigrwydd cydnabod deilliannau ehangach, nid dim ond ennill cymwysterau. Rhai o'r meysydd a grybwyllwyd oedd gyflogaeth gynaledig, dilyniant gyrfa, twf cyflog a mwy o hyder a lles.

## Asesu a sefydlu

12. At ei gilydd, roedd cefnogaeth gyffredinol i'r gofynion asesu a sefydlu a bod cynyddu'r taliad o £285 i £400 ar gyfer yr elfen hon yn adlewyrchiad teg o'r gwaith cynyddol sydd ynghlwm. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn cefnogi cyflwyno cofnodi dysgu cydnabyddedig blaenorol dysgwyr, a fyddai'n cael gwared ar ddysgu ailadroddus ac yn lleihau hyd y brentisiaeth. Roedd cyflogwyr yn benodol yn cefnogi ei gyflwyno.

13. Nodd rhai rhanddeiliaid, wrth i gostau barhau i gynyddu, y dylid adolygu lefel y taliad yn barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyson â disgwyliadau cyflwyno.

### Hyd a threfn restrol costau cyflwyno fesul sector

14. At ei gilydd, roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r cysyniad o drefn restrol costau cyflwyno ar gyfer fframweithiau sector, a fyddai'n cael eu halinio ar draws y sector trydyddol, er y gallai'r pwysoliadau gwirioneddol amrywio rhwng rhaglenni trydyddol. Fodd bynnag, dywedodd rhai ymatebwyr nad oedd digon o wybodaeth ar gael i lunio barn wybodus ar y cynnig hwn.

15. Elfen allweddol o'r rhaglen brentisiaethau newydd yw cael gwared ar y cyfnod penodedig ar gyfer fframwaith prentisiaeth. Bydd cyfnod lleiaf o 12 mis, ond dim cyfnod hwyaf. Bydd hyd arfaethedig y fframwaith prentisiaeth wedi'i seilio ar ganlyniad yr asesiad cychwynnol o ddysgwr unigol er mwyn galluogi hyblygrwydd o fewn y system.

16. Roedd cefnogaeth gref i'r egwyddor hon, gyda'r ymatebwyr yn cydnabod y manteision posibl ar gyfer cyflwyno sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, cyfleoedd dilyniant ac ymatebolrwydd i anghenion cyflogwyr.

17. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at bryderon y gallai'r cyfnod lleiaf arfaethedig o 12 mis leihau hyblygrwydd, yn hytrach na'i gynyddu, yn enwedig ar gyfer rhaglenni â modelau cyflwyno sefydledig byrrach neu lle mae gan ddysgwyr ddysgu blaenorol sylweddol. Un ffactor yn hyn oedd pryder na fyddai darparwr yn cael yr uchafswm cyllid pe byddai'r dysgwr yn cwblhau'r fframwaith yn gynnar, a allai arwain at ddysgwyr yn aros ar y rhaglen am gyfnod hwy nag sydd ei angen. Nododd ymatebwyr fod rhai fframweithiau prentisiaeth, er enghraifft cymwysterau Lefel 2 mewn Cyfrifyddu ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus mewn 9–10 mis ar hyn o bryd, yn enwedig pan fydd gan ddysgwyr gymwysterau blaenorol, dysgu blaenorol cydnabyddedig neu gefnogaeth gan gyflogwyr sy'n eu galluogi cyflawni'n gyflymach. Dywedodd rhai y gallai cyfnod lleiaf cyffredinol ohirio dilyniant i ddysgu lefel uwch, datblygiad gyrfa a datblygiad cyflog i ddysgwyr medrus.

### Cydraddoldeb

18. At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr yn cytuno y byddai'r cynigion yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gydraddoldeb.

19. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod gweithredu ac adolygu'r model cyllido yn hollbwysig o ran sicrhau'r effaith fwyaf ar ddysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys:
    a. cynnal mesurau diogelu cryf ar gyfer dysgwyr difreintiedig a dysgwyr ag anghenion uwch
    b. sicrhau cyllid digonol ar gyfer cymorth i ddysgwyr
    c. monitro cyfranogiad a deilliannau ar draws gwahanol grwpiau
    d. cydnabod mesurau llwyddiant ehangach y tu hwnt i gwblhau cymwysterau

e. darparu trefniadau cyllido a chymorth i brentisiaid sy’n debyg i’r rhai sydd ar gael mewn addysg bellach ac addysg uwch.

### Costau ychwanegol

20. At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi’r cynigion i feysydd gael eu cwmpasu gan gyllid costau ychwanegol. Tynnodd y mwyafrif ohonynt sylw at gostau ychwanegol ar gyfer hyrwyddo’r Gymraeg, anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r costau sy’n gysylltiedig â theithio mewn ardaloedd gwledig.

21. Awgrymodd rhai ymatebwyr gronfa cymorth ailsefyll i dalu am ganlyniadau anfwriadol ehangach posibl, fel costau ychwanegol i ddarparwyr, mwy o bwysau ar ddysgwyr a’r effaith ariannol ar sectorau sydd ag asesiadau allanol drud.

### Y Gymraeg

22. Y consensws cyffredinol oedd y dylai cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg gael ei ymwreiddio drwy’r system gyfan, yn hytrach na chael ei drin yn elfen neu’n ofyniad ychwanegol. Roedd llawer o’r ymatebwyr yn argymell y dylai cyllid ar gyfer cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg gael ei ymgorffori yn y model cyllido craidd, gyda threfniadau cyllido wedi’u dylunio i nodi gwahanol lefelau o ddwyieithrwydd a defnydd iaith ymhlith dysgwyr, yn hytrach na dibynnu at gategorïau iaith penodedig.

23. Thema a gododd dro ar ôl tro oedd yr angen am gyllid clir, hygyrch a chynaliadwy sy’n adlewyrchu’n llawn gostau cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Tynnodd yr ymatebwyr sylw ar brinder tiwtoriaid, aseswyr ac ymarferwyr unigol sy’n siarad Cymraeg ar draws sawl sector ac roeddent yn argymell buddsoddi mewn datblygu’r gweithlu, hyfforddiant Cymraeg a chymhellion i ddenu a chadw staff dwyieithog. Gellid cydnabod yr elfennau hyn fel costau ychwanegol.

24. Nododd llawer o’r ymatebwyr fod diwylliant y gweithle yn dylanwadu’n fawr ar b’un a yw prentisiaid yn gallu defnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Roedd yr awgrymiadau’n cynnwys cyflwyno cymhellion i gyflogwyr, yn enwedig busnesau bach a chanolig, i hybu’r Gymraeg yn y gweithle.

### Casgliad

25. At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi egwyddorion y model cyllido newydd. Fodd bynnag, mae Medr wedi penderfynu gwneud rhai newidiadau i’r cynigion i fynd i’r afael â phryderon a godwyd yn yr ymgynghoriad a lliniaru canlyniadau anfwriadol. Mae’r rhain fel a ganlyn:

- Bydd y taliad ar gyfer cwblhau’n llwyddiannus yn parhau ar ei gyfradd bresennol o 3% am o leiaf flwyddyn gyntaf y rhaglen newydd o fis Awst 2027. Bydd hyn yn caniatáu i Medr ystyried yr adolygiad ehangach o fethodolegau cyllido Medr a sicrhau bod dulliau ar gyfer cydnabod cwblhau’n llwyddiannus ar draws y sector trydyddol yn cyd-fynd â’i gilydd. Bydd hefyd yn caniatáu i’r fframwaith rheoleiddio newydd, sy’n cynnwys monitro deilliannau, ddod i rym. Bydd Medr yn cadw’r elfen hon o’r model dan arolwg a bydd yn trafod newidiadau yn y dyfodol gyda darparwyr prentisiaethau.

- Bydd Medr yn cyflwyno rhai eithriadau i’r cyfnod lleiaf o 12 mis ar gyfer prentisiaeth i fynd i’r afael â materion yn ymwneud â llwybrau penodol ac er mwyn ystyried cyflwyno dysgu blaenorol cydnabyddedig yn elfen o’r rhaglen. Caiff hyn ei gyflwyno wrth i Medr barhau i adolygu fframweithiau prentisiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys digon o ddysgu i gynnal arlwy prentisiaethau cadarn sy’n datblygu cymhwysedd galwedigaethol.
- Bydd y Gymraeg yn cael ei chynnwys yn y gyllideb costau ychwanegol i gefnogi darparwyr i hybu a datblygu darpariaeth Cymraeg, fel y nodir yn yr ymgynghoriad. Hefyd, gall darparwyr gael cynnydd gwerth hyd at 20% ar gyfer darpariaeth Dysgu Cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd Medr yn adolygu hyn yn ystod cyfnod y grant, yn unol â pholisïau ac amcanion Medr.

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government